OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2942

# Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu Gofal a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011

## Rhan 2 —

## Cydgysylltwyr gofal

### Dynodi'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol

**3.**—(1) Os oes Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl eilaidd(**1**) i glaf perthnasol a bod awdurdod lleol hefyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth o'r fath, yna mae darpariaethau'r rheoliad hwn yn gymwys.

(2) Y Bwrdd Iechyd Lleol yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol i glaf perthnasol oni bai bod paragraffau (3) neu (4) yn gymwys.

(3) Awdurdod lleol yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol i glaf perthnasol os yw'r claf hwnnw'n destun—

(a) cais am warcheidiaeth a wnaed o dan adran 7 o Ddeddf 1983; neu

(b) gorchymyn gwarcheidiaeth a wnaed o dan adran 37 o Ddeddf 1983.

(4) Awdurdod lleol yw'r darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol i glaf perthnasol os yw'r claf hwnnw o dan ddeunaw oed a hefyd—

(a) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 22(1) (dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol o ran plant sy'n derbyn gofal ganddynt) o Ddeddf 1989;

(b) yn blentyn perthnasol o fewn ystyr adran 23A (yr awdurdod cyfrifol a phlant perthnasol) o Ddeddf 1989;

(c) yn gymwys i gael cyngor a chymorth o dan adran 24(1A) (personau sy'n gymwys i gael cyngor neu gymorth) neu adran 24(1B) o Ddeddf 1989; neu

(ch) yn cael ei dderbyn i ysgol yn unol â datganiad o anghenion addysgol arbennig a wneir o dan adran 324 (datganiad o anghenion addysgol arbennig) o Deddf Addysg 1996(**2**) sy'n enwi'r ysgol.

### Gofynion cymhwystra i gydgysylltwyr gofal

**4.**—(1) Mae person yn gymwys i'w benodi'n gydgysylltydd gofal os yw'r person hwnnw—

(a) yn cyflawni un neu ragor o'r gofynion proffesiynol yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn; a

(b) wedi dangos er boddhad y darparydd gwasanaeth iechyd meddwl perthnasol fod ganddo brofiad, sgiliau neu hyfforddiant priodol, neu gyfuniad priodol o brofiad, sgiliau a hyfforddiant.

(**1**) Gweler adran 49 o'r Mesur (ystyr gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd) i gael y diffiniad o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd.

(**2**) 1996 p. 56.

(2) Wrth benderfynu a yw person yn bodloni'r gofyniad penodi ym mharagraff (1)(b) rhaid rhoi sylw i safonau mewn unrhyw Godau Ymarfer a ddyroddir o dan adran 44 (codau ymarfer) o'r Mesur, ac unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dro i dro gan Weinidogion Cymru.